**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 28ain Tachwedd 2001**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

# DATBLYGU TELATHREBU

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Diweddaru'r aelodau ar y materion cyfredol yn ymwneud â datblygu telathrebu.

## 2. CEFNDIR

2.1 Ym mis Rhagfyr 2000 rhoddais adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y pwnc yma, yn amlinellu'r mesurau rheoli cynllunio sydd mewn bod ac yn rhoi gwybod i'r aelodau am gynnwys y papur ymgynghorol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) a oedd yn cynnig y byddai mastiau ar adeiladau ac adeileddau, a mastiau â'u seiliau ar y ddaear ag angen caniatâd cynllunio. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gylchlythyru i Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt

2.2 Yn ddiweddar mynychodd rhai aelodau seminar addysgiadol iawn ar delathrebu a drefnwyd gan Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar 19eg Hydref.

2.3 Mae ton newydd o gynigion ar gyfer datblygiadau telathrebu ar ddyfod gyda chyrhaeddiad y drydedd genhedlaeth o dechnoleg ffonau symudol - y System Delathrebu Symudol Gyfanfydol.

## 3. MATERION CYFREDOL

3.1 Yn dilyn papur ymgynghorol CCC tuag at ddiwedd 2000, mae cynigion pellach wedi'u hamlinellu gan y Cynulliad ar ffurf pecyn o fesurau a gyhoeddwyd gan Sue Essex ym mis Ebrill 2001 ac asesiad effaith reoleiddiol interim (RIA) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2001. Yn ei hanfod y cynnig ydy:

i) Cynyddu'r amser i awdurdodau lleol ddelio â cheisiadau cymeradwyaeth flaenorol o 42 neu 28 diwrnod i 56 diwrnod ar gyfer mastiau â'u seiliau ar y ddaear ac ar gyfer y rheini ar adeiladau, ond i beidio â mynnu cais am ganiatâd cynllunio llawn.

ii) Cynyddu'r ymgynghori cyhoeddus ar geisiadau o'r fath.

iii) Cynyddu'r ffioedd cynllunio ar geisiadau o'r fath.

3.2 Rydym wedi ymateb i CCC ar y cynigion pellach hyn ar ran y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn ailadrodd y farn y dylai mastiau â'u seiliau ar y ddaear a datblygiad telathrebu arwyddocaol arall fod dan reolaeth gynllunio lawn ac na fydd y cynigion ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yr un fath â cheisiadau cynllunio gan fod y terfynau amser caeth o 56 diwrnod yn rhoi terfyn amser i'r graddau y gall y Cyngor ymgynghori a chymryd barn i ystyriaeth. Mae copi o'n hymateb e-bost **ynghlwm.**

3.3 Mewn gwrthgyferbyniad mae'r Alban wedi penderfynu dod â mastiau â'u seiliau ar y ddaear dan reolaeth gynllunio lawn tra yn Lloegr mae system gymeradwyaeth flaenorol 56 diwrnod i'w chyflwyno.

3.4 Mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch, tra bod astudiaethau'n parhau i effeithiau gosodiadau a chyfarpar telathrebu ar iechyd, mae'r llywodraeth wedi cynghori Cynghorau i beidio ag ymyrryd mewn cynigion mastiau ble mae canllawiau iechyd a diogelwch cenedlaethol yn cael eu cwrdd. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu tystysgrif cydymffurfiad ICNIRP gyda cheisiadau.

3.5 Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor fel tirfeddiannwr wedi penderfynu gosod gwaharddiad dros dro ar osod mastiau radio ar dir ac eiddo'r Cyngor tra'n aros am ganllawiau pellach gan y llywodraeth. Penderfynwyd hyn mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 17eg Mai 2001 a'i gadarnhau yn y Cyngor Llawn ar 24ain Gorffennaf 2001. Serch hynny, rhaid i'r Pwyllgor hwn barhau i arfer ei bwerau fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn unig ac ystyried y materion cynllunio a godir gan unrhyw gais cynllunio, er gwaethaf gwaharddiad tir y Cyngor.

## 4. GWYBODAETH BELLACH

4.1 Gellir gweld ymgynghoriadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar delathrebu ar eu gwefan - *www.wales.gov.uk.*

**Er gwybodaeth i'r aelodau y mae'r adroddiad hwn**.

**Atodiad ddim ar gael ar ffurf electronig**

MD/SH

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**28 TACHWEDD 2001**
**AGENDA EITEM. 5**

# ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. Pwrpas**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai **ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2001** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle ddydd Mercher **5 Rhagfyr 2001 (nodir yr amser yn nês ymlaen).**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2001**